**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 6 Tachwedd 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Tachwedd 2018** |

**PWNC**

Eitem 6:AD-DREFNU YSGOLION BANGOR

**PENDERFYNIAD**

Gweithredu ar y cynnig a gyhoeddwyd 4 Medi 2018 i gau Ysgol Glanadda a Babanod Coed Mawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420 yn weithredol 1 Medi 2020.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a phenderfyniad y Cabinet 3 Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 4 Medi 2018, a chynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol ar y cynnig rhwng 4 Medi a 2 Hydref 2018.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol o'r gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu ar y cynnig a'i pheidio. Yn ystod y cyfnod derbyniwyd 1 gwrthwynebiad ysgrifenedig a oedd yn cynnwys nifer o sylwadau am Drafnidiaeth, Diogelwch Plant, Cyllid, Addysg ag y Gymraeg a ystyriwyd gan y Cabinet wrth ddod i benderfyniad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datgan o fuddiant gan y Cynghorydd Elin Walker Jones oherwydd ei bod yn Lywodraethwraig yn Ysgol y Garnedd, ond nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Bu i aelodau lleol leisio ei barn yng Nghyfarfod y Cabinet.

Cafwyd cyfnod o wrthwynebiad i'r Rhybudd Statudol yn y cyfnod 4 Medi i'r 2 Hydref, ac mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 6 Tachwedd 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Tachwedd 2018** |

**PWNC**

Eitem 7:RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO: CANOL DINAS BANGOR

**PENDERFYNIAD**

a) I gefnogi'r bwriad o dargedu Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau o fewn Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor

b) Ymrwymo, mewn egwyddor, £250k o'r Gronfa Cydariannu a sefydlwyd i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni ariannol allanol ond gofyn am adroddiad pellach ar y Cynllun terfynol er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag amcanion y Cyngor ac yn cynrychioli gwerth am arian.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Penderfynodd y Cabinet ar 22 Mai eleni i gymeradwyo Strategaeth Adfywio Ranbarthol Gogledd Cymru oedd wedi ei pharatoi fel rhan o Raglen Targedu Buddsoddi (TRI) mewn Adfywio Llywodraeth Cymru. Mynegwyd fod Bangor wedi ei adnabod fel blaenoriaeth dros y cyfnod 2018-2021 ac o ganlyniad mae cyfle i dargedu adnoddau Rhaglen TRI ar gyfer gweithredu prosiectau adfywio cymwys.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad